CYNGOR - DYDD MERCHER, 19 GORFFENNAF 2023

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB /REMOTELY VIA MICROSOFT TEAMS DYDD MERCHER, 19 GORFFENNAF 2023, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke | HJ David |
| C L C Davies | P Davies | S Easterbrook | N Farr |
| P Ford | J Gebbie | W R Goode | H Griffiths |
| S J Griffiths | D T Harrison | M L Hughes | D M Hughes |
| RM James | P W Jenkins | M R John | M Jones |
| MJ Kearn | W J Kendall | J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas |
| J E Pratt | E Richards | R J Smith | JC Spanswick |
| I M Spiller | T Thomas | JH Tildesley MBE | G Walter |
| A Wathan | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| I Williams | MJ Williams | R Williams | E D Winstanley |
| T Wood | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

151. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

RJ Collins, C Davies, M J Evans, RM Granville a/ac M Lewis

152. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Elaine Winstanley fuddiant personol yn yr adroddiad "Diweddariad Chwarter 1 Rhaglen Gyfalaf 2023-24" a "Cynllun Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2023-24 a'r Fframwaith Perfformiad" gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen oedd yn rheoli Pafiliwn y Grand, Tŷ Bryngarw a Neuadd y Dref Maesteg.

Datganodd y Cynghorydd Heidi Bennett fuddiant rhagfarnus yn y "Cynigion ar gyfer y Trefniadau Trosolwg a Chraffu ar y Cyd yn dilyn y newid i un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer Cwm Taf Morgannwg" gan ei bod yn Aelod o'r BGC ar ran ei chyflogwr, sef BAVO.

Mewn perthynas ag eitem 11 ar yr agenda, "Derbyn y Cwestiynau a ganlyn":

Datganodd y Cynghorydd Richard Williams fuddiant personol gan ei fod yn aelod o Fwrdd Gwarchodwyr Walia Coety ac yn Aelod o Gyngor Tref Pencoed.

Datganodd y Cynghorydd Elaine Winstanley fuddiant rhagfarnus gan mai hi oedd y person cyfrifol ar gyfer dau adeilad CBSP, oedd yn cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.

Datganodd y Cynghorydd Paula Ford fuddiant rhagfarnus gan ei bod ar Fwrdd Gwarchodwyr Walia Coety.

153. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion 21/06/2023 fel cofnod gwir a chywir.

154. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Croesawodd y Maer Ellie O'Connell, sef Maer yr Ifanc, oedd yn bresennol i arsylwi'r cyfarfod.

Cyfeiriodd y Maer at ddigwyddiadau yr oedd wedi bod ynddynt yn ddiweddar, yn cynnwys:

- Agor Gorymdaith Diwrnod y Lluoedd Arfog gan Arglwydd Raglaw Canol Morgannwg.
- Digwyddiad Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.
- Gerddi agored Cefn Cribwr.
- “First Give” yn Ysgol yr Archesgob McGrath lle bu'n rhan o'r panel oedd yn penderfynu ar y tîm a enillodd y grant o £1000 gan First Give.
- Ras 10 cilometr Porthcawl lle y cychwynnodd Heriau'r Dyfodol a Ras y Teulu.
- Noswaith Gyraeddiadau CCYD lle y dathlwyd llwyddiannau ardderchog y dysgwyr.
- Cynhyrchiad Ysgol Brynteg o ‘Grease’ ym Mhafiliwn y Grand ym Mhorthcawl.
- Yr Orymdaith Heddwch Ryng-ffydd, cyfle unigryw i ymweld ag Eglwys, Synagog a Mosg i gyd yn yr un diwrnod. Trefnwyd hyn gan yr elusen Cofio Srebrenica, ac roedd yn cael ei noddi gan Gydraddoldeb Hiliol.
- Sioe Fawr Pen-y-bont ar Ogwr, lle'r ymunodd â'r Gwasanaeth Atal a Lles i ddathlu llwyddiannau'r arweinwyr a'r llysgenhadon ifanc ffantastig.

Y Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet – Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd

Fe wnaeth y Dirprwy arweinydd hefyd fynd i'r Sioe Fawr, digwyddiad a ddatblygwyd i ddathlu ymdrechion gwirfoddoli a sgiliau arwain pobl ifanc ar draws y Fwrdeistref Sirol. Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd gyflwyniad arbennig i gydnabod gwaith yr oedd llysgenhadon y gofalwyr ifanc wedi bod yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r heriau y mae gofalwyr ifanc yn eu hwynebu.

Esboniodd y Dirprwy Arweinydd gynllun y cerdyn adnabod, oedd yn cael ei gydnabod gan ysgolion, meddygfeydd, fferyllwyr ac archfarchnadoedd. Roedd mwy na 300 o gardiau gofalwyr ifanc bellach yn cael eu defnyddio, ac roedd eu potensial yn cael ei ehangu ymhellach i ddarparu mynediad am bris gostyngol a manteision eraill gyda busnesau lleol. Ar y cyd â'r Cyngor a phartneriaid y 3ydd sector roeddent wedi datblygu digwyddiadau megis diwrnodau “Rydym yn cael ein gwerthfawrogi” oedd yn gyfleoedd i

wneud gweithgareddau gyda'u hysgolion na fyddent yn eu cael fel arall. Bu llysgenhadon gofalwyr ifanc hefyd yn helpu i ddatblygu'r Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc lle gallai pobl ifanc leisio'u barn, tra'n cynnig mewnwelediad a barn ar ystod eang o faterion oedd yn effeithio arnynt.

Aelod y Cabinet - Cyllid, Adnoddau a Chyfreithiol

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor, yn dilyn yr aflonyddwch sylweddol yn gynharach yn yr wythnos pan aeth y systemau TGCh i lawr a chyfyngu ar fynediad at systemau cyfrifiadurol, y wefan gorfforaethol, y system ffôn a nifer o wasanaethau rhyngweithiol. Esboniodd fod y tîm TGCh wedi gweithio'n ddiflino i ganfod a chywiro'r broblem, ac wrth i faint y mater ddod i'r amlwg, cychwynnwyd y cynllun parhad busnes.

Anfonwyd negeseuon a diweddariadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol a throsglwyddwyd pob cyswllt ffôn i'r system wrth gefn. Gweithiodd staff rownd y cloc i sicrhau bod yr holl systemau'n cael eu hadfer cyn gynted â phosibl. Byddai adolygiad yn cael ei gynnal yn awr ac yn y cyfamser, diolchodd i'r tîm TGCh, a chydnabod eu hymdrechion a'u harbenigedd wrth fynd i'r afael â'r mater.

Roedd Aelod y Cabinet yn falch iawn o hysbysu'r Aelodau bod y Cyngor wedi derbyn statws lefel arian yn y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr. Cyflwynwyd hwn gan Gymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru ac roedd yn cydnabod yr ymdrechion parhaus i gefnogi aelodau presennol a chyn-aelodau cymuned y Lluoedd Arfog. Byddai'r Cyngor yn derbyn ardystiad ffurfiol o'i statws newydd drwy'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Arian yng Ngwobrau Arian ERS Amddiffyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Aelod y Cabinet - Y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd ddiweddariad byr ynghylch y paratoadau ar gyfer y terfyn cyflymder newydd o 20 milltir yr awr fyddai'n cael ei gyflwyno yn y mwyafrif o ffyrdd preswyl ar yr 17eg o Fedi 2023. Roedd y cynigion yn rhan allweddol o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau llygredd, cynyddu diogelwch ar y ffyrdd ac annog pobl i ddefnyddio dulliau eraill o fynd ar deithiau byrion. I gefnogi'r cynnydd disgwyliedig mewn cyhoeddusrwydd cenedlaethol drwy gydol mis Gorffennaf a mis Awst, roedd cyfres o atebion i gwestiynau cyffredin yn cael eu datblygu a byddent ar gael yn fuan i'w rhannu gyda'r Aelodau. Byddai'r newid yn y terfyn cyflymder yn effeithio'n bennaf ar ffyrdd cyfyngedig oedd fel arfer wedi eu lleoli mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig. Roedd tua 90 o ffyrdd lleol yn cwrdd â'r canllawiau i'w hystyried fel rhai oedd wedi eu heithrio o'r terfyn cyflymder diofyn newydd a chafwyd cyfanswm o 2,684 o ymatebion i'r ymgysylltiad â'r cyhoedd yn ystod cam cyntaf y broses hon, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn cefnogi'r eithriadau arfaethedig. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi tua £1 filiwn i'r Cyngor i gefnogi gosod tua 600 o byst ac arwyddion newydd. Roedd trefniadau wrth gefn ar gael pe na bai prosesau wedi cael eu cwblhau'n llawn ar gyfer unrhyw un o'r eithriadau arfaethedig. Roedd mwy o wybodaeth ar gael ar y wefan datamap.gov.wales.

Roedd Aelod y Cabinet yn falch o adrodd bod wyth o fannau gwyrdd ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi derbyn Baneri Gwyrdd eleni. Roedd Gorsaf Dân ac Achub Cwm Ogwr, Gardd Farchnad Caerau, Coetiroedd Ysbryd Llynfi, Coed Tremain ym Mracla, Amlosgfa Llangrallo, Parc Gwledig Bryngarw, Parc Slip a Pharc Lles Maesteg i gyd wedi derbyn statws Baner Werdd lawn.

Aelod y Cabinet - Tai, Cynllunio ac Adfywio

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio y byddai Pencampwriaeth Agored Chwaraewyr Hŷn yn dychwelyd i Royal Porthcawl cyn bo hir a bod trefniadau ar waith i groesawu miloedd o gefnogwyr golff fyddai'n teithio i'r Fwrdeistref Sirol ar gyfer y digwyddiad. Gyda phwyslais cryf ar deithio llesol, anogodd y gwylwyr i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus leol i'r digwyddiad ac oddi yno. Byddai mannau parcio cyhoeddus hefyd ar gael mewn cae ger Gwesty Royal Porthcawl. Mynychodd mwy na 43,000 o bobl y digwyddiad yn 2014, a chynhyrchodd hyn effaith economaidd amcangyfrifedig o fwy na £2 filiwn. Cyfrifwyd bod gwerth yr hysbysebu drwy'r sylw cynhwysfawr ar y teledu, a ddangosodd Borthcawl a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r byd, yn werth £5.2 miliwn pellach, a neidiodd hynny wedyn i £7.8 miliwn pan ddychwelodd y digwyddiad yn 2017. Gobeithiai y byddai'n fwy na £10 miliwn eleni. Byddai'r twrnamaint unwaith eto yn cael ei ddarlledu ar Sky Sports, a byddai llawer o enwau adnabyddus yn cystadlu, gan gynnwys Ian Woosnam ac enwogion Cwpan Ryder, Darren Clarke a Padraig Harrington. Croesawodd yr Aelodau i ymuno ag ef i longyfarch yr holl staff oedd wedi gweithio'n galed i gefnogi'r digwyddiad mawreddog hwn a dymunodd y gorau i'r cystadleuwyr.

<u>Aelod y Cabinet dros Addysg</u>

Eglurodd Aelod y Cabinet dros Addysg, gan ddiolch i bartneriaeth y Cyngor gydag Awen, Hamdden Halo, yr Urdd, Menter Bro Ogwr a Chynghorau Tref a Chymuned, bod y rhaglen 'Ysgol Allan' yn barod i ddarparu ystod enfawr o weithgareddau hwyliog i blant a phobl ifanc. Byddai cynlluniau gwyliau 'Heini am Oes' ar gyfer plant wyth i un ar ddeg oed yn dychwelyd i leoliadau cymunedol yn y Betws, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerau, Cwm Garw, Maesteg, Cwm Ogwr, Pencoed a Phorthcawl, ac roedd plant hefyd yn cael eu hannog i gymryd rhan yn her ddarllen yr haf "Barod, Cychwyn, Darllen". Byddai'r fenter nofio am ddim yn dychwelyd i ganolfannau hamdden a phyllau nofio lle byddai sesiynau'n cynnwys cyrsiau cyflym i ddechreuwyr, gwersi gwella strôc a mwy, a byddai'r rhaglen Cymorth Ieuenctid a Strydoedd Mwy Diogel hefyd yn cynnig sesiynau i bobl ifanc drwy gydol gwyliau'r haf. Byddai llyfrgelloedd lleol hefyd yn cynnig digwyddiadau hwyliog yn amrywio o weithdai Symud a Dawns i sesiynau animeiddio. Byddai Parc Gwledig Bryngarw yn cynnal perfformiadau theatr awyr agored a byddai darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg ifanc gyda chynlluniau chwarae Cymraeg rhad ac am ddim yn ystod y gwyliau yn cael eu cynnal ym Maesteg, Porthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr, ac mewn gwersylloedd chwaraeon Cymraeg eu hiaith a drefnir gan yr Urdd.

Gofynnodd i'r Aelodau helpu i ledaenu'r gair am y rhaglen Ysgolion Allan oedd ar gael, a dywedodd y gellid cael manylion am hyn ar wefan y Cyngor.

<u>Aelod y Cabinet - Diogelwch Cymunedol a Lles</u>

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Lles wrth yr Aelodau fod y Cynllun Grant Digonolrwydd Bwyd newydd yn cael ei gyflwyno. Yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a CBSP, roedd y cynllun yn cael ei reoli gan BAVO, ac fe'i cynlluniwyd i fynd i'r afael â thlodi bwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol drwy gydol misoedd yr haf, drwy sicrhau bod cyllid ar gael i ddechrau mewn dau gam. Roedd y cyntaf o'r rhain yn mynd ymlaen a byddai'r ail yn ei le rhwng 24 Gorffennaf a 4 Awst. Gallai sefydliadau cymunedol wneud cais i'r cynllun a defnyddio'r cyllid i gefnogi eu gwaith.

Diolchodd Aelod y Cabinet i Lywodraeth Cymru a BAVO, y sefydliadau oedd yn ceisio helpu pobl leol, a'r holl wirfoddolwyr oedd yn gweithio i wneud gwahaniaeth o fewn cymunedau lleol i sicrhau nad oedd pobl yn mynd heb fwyd yr haf hwn.

Y Prif Weithredwr

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau am yr argymhellion terfynol gan Gomisiwn y Ffiniau i Gymru ynghylch y ffordd y câi ffiniau seneddol eu cyflunio yn y dyfodol. Roedd y newidiadau wedi cael eu gwneud i ddod â maint pob ardal yn unol ag argymhellion Llywodraeth y DU, sef y dylai pob sedd gwmpasu rhwng chwe deg naw mil a saith deg saith mil o bleidleiswyr. Byddai'r newid hefyd yn torri nifer y seddi Cymreig o 40 i 32. Roedd yr argymhellion hyn bellach yn derfynol a byddai ASau’r dyfodol yn cael eu hethol o’r etholaethau newydd hyn yn hytrach nag o hen seddi Pen-y-bont ar Ogwr ac Ogwr.

155. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad byr i'r Aelodau ar y sefyllfa gyda Zimmer Biomet. Roedd penderfyniad y cwmni i gau safle Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn syndod llwyr, ac roedd wedi ysgrifennu at yr uwch reolwyr i fynegi siom aruthrol na fu rhagrybudd na chyfle i drafod y mater ymlaen llaw. Anogodd hwy i ailystyried eu penderfyniad, ac ymrwymo i ddatblygu ac ystyried dewisiadau eraill. Pe bai'r ffatri'n cau, byddai effaith y penderfyniad hwn yn cael ei deimlo nid yn unig gan y gweithlu o 540, ond hefyd gan fusnesau o fewn y gadwyn gyflenwi ac eraill oedd wedi dod i ddibynnu ar fasnach gysylltiedig â Zimmer Biomet a'i staff. Roedd cymorth a chefnogaeth yn cael ei gynnig i bawb yr oedd y newyddion wedi effeithio arnynt. Roeddent hefyd yn hyrwyddo CBS Pen-y-bont ar Ogwr fel lle rhagorol i fuddsoddi ynddo, gyda chyngor ar gyllid a chymorth cychwyn busnes, cyfleoedd rhwydweithio cryf, cysylltiadau cyfathrebu rhagorol a gweithlu lleol medrus iawn a mwy. Roedd trafodaethau gyda Zimmer Biomet yn parhau, ac roeddent yn canolbwyntio'n gadarn ar greu twf a ffyniant yn y dyfodol ac annog busnesau eraill i ddod i weld beth oedd gan yr ardal i'w gynnig.

Ar nodyn hapusach, dathlodd un o gyflogwyr mwyaf hirsefydlog y fwrdeistref sirol, Grŵp WEPA, ei ben-blwydd yn 75 oed. Roedd WEPA ymhlith y tri gwneuthurwr papur hylendid Ewropeaidd mwyaf ac roedd yn arwain y farchnad yn ei ddefnydd o ffibr wedi'i ailgylchu. Ym mis Mehefin 2020, cymeradwyodd y Cyngor gynlluniau’r cwmni ar gyfer ehangiad gwerth £100 miliwn a ddyblodd gynhyrchiant yn y ffatri a chreu 54 o swyddi newydd a diogelu mwy na 270 o swyddi presennol.

Dywedodd yr Arweinydd wrth yr Aelodau fod Ffliw Adaraidd pathogenig iawn, neu ‘ffliw adar’, wedi’i gadarnhau mewn nifer o leoliadau ac mewn nifer o gytrefi adar gwyllt yng Nghymru. Dywedodd na ddylai aelodau'r cyhoedd godi na thrin corff aderyn marw na cheisio codi aderyn oedd yn sâl ac mewn trallod. Pe bai ieir dŵr gwyllt marw neu adar yn cael eu darganfod, dylid rhoi gwybod amdanynt gan ddefnyddio’r canllawiau ar-lein sydd ar gael gan Gov.UK, neu ffonio llinell gymorth Defra ar 034 59 33 55 77. Pe bai aderyn gwyllt sâl neu anafus yn cael ei ddarganfod, dylid cysylltu â’r RSPCA ar 0300 1234 999.

Llongyfarchodd yr Arweinydd CPD Pen-y-bont am frwydro yn ôl yn erbyn Clwb Pêl-droed Santa Coloma o Andorra i gael gêm gyfartal 1-1. Cymal cyntaf eu Gêm Ragbrofol Cynghrair Cynhadledd Europa UEFA hefyd oedd y gêm Ewropeaidd gyntaf erioed i gael ei chynnal ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac fe werthodd cae Bragdy Dunraven bob tocyn ar gyfer y digwyddiad yn fuan iawn. Byddai’r ail gymal yn digwydd yn fuan yn Andorra. Ynghyd â’r holl Aelodau, dymunodd y gorau iddynt.

156. DIWEDDARIAD AR CHWARTER 1 O RAGLEN GYFALAF 2023-24

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid y Diweddariad ar Chwarter 1 o Raglen Gyfalaf 2023-24, oedd yn cynnwys diweddariad ar y cyllidebau cyfalaf a gwariant fel ar 30 Mehefin 2023, fersiwn ddiwygiedig y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023-24 i 2032-33 a'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2023-24. Dangosai Atodiad A y cyllidebau a'r gwariant hyd at 30 Mehefin 2023 ar gyfer y cynlluniau unigol yn 2023-24.

Rhoddai Atodiad B fanylion y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023-24 i 2032-33 ac roedd atodiad C yn rhoi manylion y Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2023-24.

Eglurodd y Prif Swyddog fod y rhaglen gyfalaf wedi newid ers mis Mawrth, a'i bod ar hyn o bryd yn dod i gyfanswm o £96.9 miliwn. Roedd y rhan fwyaf o'r cynnydd yn y rhaglen honno yn ganlyniad i lithriad o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf i mewn i raglen eleni. Roedd Tabl Un yr adroddiad yn egluro sut y rhannwyd y rhaglen gyfalaf rhwng y gwahanol gyfarwyddiaethau. Dangoswyd manylion ariannu'r rhaglen yn nhabl dau o'r adroddiad. Adroddwyd am y newidiadau allweddol ym mharagraff 3.15 o'r adroddiad. Cadarnhaodd fod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r dangosyddion cymeradwy.

Ymddiheurodd Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol nad oedd y papur briffio ar y gyllideb wedi mynd yn ei flaen fel y cynlluniwyd ac anogodd yr holl aelodau i geisio mynychu'r cyfarfod briffio oedd wedi cael ei aildrefnu oherwydd yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Croesawodd yr arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ond cydnabu'r pwysau refeniw ac ychwanegodd y byddai’r swyddogion yn ymchwilio i hyn ymhellach.

Gofynnodd Aelod faint o'r rhaglen gyfalaf a neilltuwyd i risg. Atebodd y Prif Swyddog fod y rhaglen gyfalaf yn cael ei dyrannu ar sail blaenoriaethau ac y byddai llawer o'r blaenoriaethau hynny’n ymwneud â risg i'r Cyngor. Ni welwyd risg o fewn y rhaglen gyfalaf, ond roedd llawer o'r cynlluniau unigol yn ymwneud â naill ai uwchraddio, amnewid neu wella'r asedau oedd ganddynt i wneud yn siŵr eu bod yn addas i'r diben.

Atebodd yr Aelod ei fod yn cyfeirio at arian wrth gefn a gofynnodd faint oedd yn gost adeiladu a faint oedd yn cael ei gadw ar gyfer arian wrth gefn?

Eglurodd y Prif Weithredwr fod elfen wrth gefn yn y contract o fewn pob prosiect, sef amcangyfrif fel arfer o'r hyn a allai dalu am gost annisgwyl yn ystod unrhyw brosiect penodol. O fewn y rhaglen gyfalaf, anaml y byddent yn gwario'r balans cyfan oedd ar gael ar gynlluniau ac felly roedd rhywfaint o arian wrth gefn ar gael o fewn y rhaglen. Ni fyddai pob eitem yn y rhaglen gyfalaf yn digwydd ar yr un pryd, felly pe bai angen cyllid ychwanegol ar bethau yn gynnar yn y rhaglen gyfalaf, byddai effaith ar bethau a nodwyd yn ddiweddarach yn y rhaglen. Roedd yn rhaid iddynt reoli'r risg honno yn y ffordd honno yn hytrach na dim ond nodi un swm ar gyfer risg. Roeddent yn ymwybodol iawn o risg ar hyn o bryd gan eu bod hefyd yn wynebu cynnydd digynsail mewn gwariant cyfalaf. Roedd eu ffocws ar y rhaglen gyfalaf yn fwy nag y bu erioed, ac roeddent yn cynnig creu Bwrdd Cyfalaf gyda mwy o oruchwyliaeth ar yr hyn oedd yn digwydd.

Cyfeiriodd Aelod at y trosglwyddiad a awgrymwyd o £460,000 o gyfalaf heb ei ddyrannu ar gyfer cerbydau fflyd yn ymwneud â rheoli gwastraff. Holodd a oedd hwn yn ddull oedd yn rhoi'r gwerth gorau am arian, o ystyried y sefyllfa ariannol ansicr yr oeddent ynddi. Byddai hwn yn gontract interim dwy flynedd ar gyfer rheoli gwastraff o fis Mawrth 2024, ac ar ôl hynny cymerai y byddai'r cerbydau'n segur. Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol wedi argymell yn unfrydol bod Gwasanaethau Fflyd yn ystyried prydlesu cerbydau a pheiriannau yn hytrach na'u prynu'n llwyr er mwyn penderfynu a allai hyn greu arbedion, o ystyried bod y cerbydau hyn yn saith mlwydd oed ac nad oedd ganddynt ond naw i 10 mlynedd yn unig o oes. Gofynnodd i Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd warantu bod yr holl ddewisiadau wedi cael eu hystyried a bod y cynnig hwn yn cynrychioli gwerth am arian yn hytrach na phrydlesu cerbydau mwy ecogyfeillgar hyd nes y byddai'r contract rheoli gwastraff newydd wedi cael ei ddyfarnu.

Eglurodd Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd mai contract 2 flynedd oedd y contract gwastraff oedd allan i dendr ar hyn o bryd. Nid oeddent wedi

cyrraedd y pwynt i benderfynu ble y byddent yn mynd yn y dyfodol gyda'r mathau o gerbydau fyddai eu hangen a gallai targedau Llywodraeth Cymru newid sut y byddent yn symud ymlaen o 2026 a thu hwnt. Roedd penderfyniad wedi cael ei wneud i fynd am gontract interim 2 flynedd ar gyfer gwastraff ac roedd y dull casglu'n aros yr un fath. Y gost ar gyfer yr holl offer gan gynnwys y cerbydau oedd £460 mil o'i gymharu â'r gost am offer newydd a fyddai'n filiynau.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros y Cymunedau fod penderfyniad wedi cael ei wneud i gael contract gwastraff interim dwy flynedd yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr o fis Ebrill 2024 hyd at fis Mawrth 2026 ac y byddent wedyn yn edrych ar fodel gwasanaeth newydd ar gyfer y Cyngor. Roedd ansicrwydd ynghylch targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, roeddent yn defnyddio 5 cerbyd casglu sbwriel mawr iawn oedd yn cario gwastraff gweddilliol a 14 o gerbydau ailgylchu oedd yn benodol i Ben-y-bont ar Ogwr ar gyfer eu methodoleg casglu ac ni fyddent yn gallu prydlesu na phrynu'r rheiny, felly roedd yn bwysig iawn eu bod wedi eu cael fel rhan o'r contract hwn. Pe bai'r targed ailgylchu'n newid, byddai'n rhaid iddynt gael fflyd wahanol a chyfluniad gwahanol. O 2030 ymlaen byddai datgarboneiddio, ac angen iddynt ystyried cerbydau allyriadau isel iawn ac felly byddai'n anghyfrifol gwario'r arian hwnnw'n awr, gan wybod y gallai'r newidynnau hyn newid.

Darparodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros y Cymunedau fwy o fanylion ynghylch yr offer presennol y byddent yn ei gael am y £460 mil, yr oedd rhan sylweddol ohono yn llai na saith mlwydd oed. Roedd o leiaf dair blynedd yn fwy o fywyd yn yr ased a rhan bwysig o agenda 2030 oedd cael y defnydd mwyaf ohono. Byddai'r gost o gael yr holl eitemau o'r newydd yn fwy na £10 miliwn. Roedd hwn yn ddewis doeth oedd yn rhoi gwerth am arian ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd Aelod at y gorwariant a'r cynlluniau wrth gefn a holodd pa mor aml y câi'r rhain eu hadolygu. Cyfeiriodd at Uwchraddiad Waterton oedd â chyllideb o £8.144 miliwn o hyd, er bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros y Cymunedau wedi dweud nad oedd arnynt eisiau aros yn safle'r depo hwnnw. Cyfaddefodd hefyd fod £3.5 miliwn o'r £8.144 miliwn hwnnw yn ddibynnol ar dderbyniad annhebygol gan Barc Afon Ewenni. Gofynnodd faint o ffydd y gallent ei gael yn y rhaglen gyfalaf pan oedd yn cynnwys prosiectau nad oeddent yn mynd i ddod ar-lein ac â chyllidebau a oedd yn amodol ar eitemau oedd yn annhebygol iawn o gael eu gwireddu.

Atebodd y Prif Weithredwr fod byrddau prosiect unigol yn edrych ar risgiau a chynnydd mewn costau ac yn uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn rheolaidd iawn. Roedd yn awgrymu bod angen iddynt wneud mwy na hynny o ran llywodraethu ac felly roeddent yn cynnig Bwrdd Cyfalaf a allai gyfarfod bob yn ail fis o bosibl ac yna adrodd i Fwrdd Rheoli Corfforaethol y Cabinet. Roeddent yn byw mewn cymdeithas chwyddiannol lle roedd angen i'r ffocws ar y rhaglen gyfalaf fod yn fwy mae'n debyg oherwydd ei bod yn amlwg yn risg ariannol i'r sefydliad o ran y costau cynyddol.

Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau nad oeddent yn dymuno bod yn Nepo Waterton ond mai realiti'r sefyllfa ariannol oedd na fyddent yn gallu fforddio symud o'r ardal honno yn y dyfodol agos. I gael depo newydd gallai fod angen o leiaf £14 i £15 miliwn ac roedd dyraniad cyllideb o ychydig dros £8 miliwn. Fel y dywedwyd, roedd £3 miliwn o hwnnw'n amodol ar dderbyn cyfalaf o werthu'r tir hwnnw, oedd ers hynny wedi cael ei ddynodi fel mewn parth llifogydd ac felly na allent godi tai preswyl arno. Roedd y dyraniad hwnnw wedi bod yn y rhaglen gyfalaf ers peth amser a byddai'n aros yn £8,000,000. Roedd ganddynt Fwrdd Prosiect oedd yn gweithio ar yr hyn oedd yn bosibl yn y depo hwnnw a ffyrdd o fod yn fwy arloesol.

Nododd Aelod fod dyraniad o £430 mil yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer ffyrdd heb eu mabwysiadu, yn ychwanegol at yr hanner miliwn a ddyrannwyd y flwyddyn flaenorol.

Gofynnodd am eglurder ynghylch sut y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio eleni ac a fyddai asesiad cronnus o ba mor effeithiol y defnyddiwyd yr arian wrth fabwysiadu ffyrdd.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros y Cymunedau fod yr arian yr oedd yn cyfeirio ato yn ddyraniad unwaith ac am byth o £500,000 ac mai dim ond £70,000 a wariwyd o'r dyraniad hwnnw. Ni allent fabwysiadu llawer o ffyrdd am y £430,000 a chronfa untro o arian ydoedd hon. Roeddent ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd a lonydd heb eu mabwysiadu i ddarganfod pa rai fyddai'n elwa fwyaf er mwyn gwario'r arian yn ddoeth. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelod y byddai'r arian yn cael ei wario ar y gwaith cyfalaf fyddai angen ei wneud ar y ffyrdd hynny.

Cyfeiriodd Aelod at Bafiliwn y Grand a'r newid yn y gwariant gwreiddiol o 2022/23 i 2023/24 a gofynnodd a fyddai cau'r Pafiliwn yn cael ei ohirio o ganlyniad i hyn. Gofynnodd hefyd a oedd y penderfyniad wedi cael ei wneud ar leoliad y cyrtiau tennis ym Mharc Griffin.

Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai Pafiliwn y Grand yn cau rywbryd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn galendr nesaf. Y llinell amser a ragwelwyd oedd y byddent yn gobeithio cyflogi contractwr i ddechrau ar y safle yn chwarter cyntaf y flwyddyn nesaf i gyd-fynd â chau'r safle. Ychwanegodd fod amserlen dynn iawn ar gyfer cyflawni'r prosiect ac ynghyd â nifer o awdurdodau eraill, eu bod yn lobïo am estyniad o flwyddyn o ran cyflawni'r prosiect tan 2026.

Eglurodd Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd fod gwaith yn dal i gael ei wneud ynghylch lleoliad y cyrtiau tennis ym Mharc Griffin. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu ar safle ar gyfer y cyrtiau heb effeithio ar y ffordd, ac roedd y gwaith i ddechrau yn yr hydref.

Cyfeiriodd Aelod at yr addewid a wnaed ym maniffesto Llafur, sef y byddai Llafur a Phen-y-bont ar Ogwr, drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, yn darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd erbyn mis Medi 2023 a gofynnodd a fyddent yn cyflawni'r addewid hwnnw ac os na fyddent, erbyn pryd y gellid ddisgwyl i bob ysgol gynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr fod yn darparu prydau ysgol am ddim.

Atebodd Aelod y Cabinet dros Addysg fod yr addewid wedi ei rhoi yn wreiddiol yn ôl yn ystod yr etholiad. Yn anffodus, pan ysgrifennwyd yr addewid hwnnw, roedd ar adeg wahanol iawn cyn goresgyniad yr Wcráin ac roedd yr holl broses wedi cymylu. Roedd costau wedi cynyddu, chwyddiant wedi mynd drwy'r to ac roedd wedi golygu eu bod wedi gorfod gohirio eu cynlluniau. Roeddent bellach yn ehangu'r cynnig i blant blwyddyn tri o fis Medi, plant meithrin erbyn Ionawr 24, blwyddyn pedwar yn nhymor yr haf ac wedyn blwyddyn pump a blwyddyn chwech ar gyfer Medi 2024. Roedd yn cymryd ychydig yn hirach na'r disgwyl ac yn hirach na'r gobaith yn wreiddiol.

Nododd Aelod y byddai £33.8 miliwn yn dod o arian grant allanol a chroesawodd hyn ac ychwanegodd ei fod yn arwydd da eu bod yn estyn allan i weld pa gyllid oedd ar gael. Gofynnodd sut roedd cronfa Fuddsoddi Bargen Ddinesig Caerdydd yn cyd-fynd â'r tabl hwnnw. Yn Atodiad B roedd sôn am Fargen Ddinesig Caerdydd a £4.9 miliwn ond gofynnodd am ragor o wybodaeth i weld sut y byddai'n cael ei ddyrannu a'r broses o ymgeisio am arian.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y câi holl arian y brifddinas ei ddangos o fewn cyfanswm y grantiau hynny o £33.8 miliwn. Nid arian Prifddinas-Ranbarth Caerdydd oedd hynny i gyd gan y byddai hefyd yn cynnwys arian gan Lywodraeth Cymru a ffrydiau ariannu eraill. Byddai'n darparu dadansoddiad i'r Aelodau pe bai angen.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros y Cymunedau fod y grantiau hyn yn eistedd yn bennaf yng Nghyfarwyddiaeth y Cymunedau. Roedd y £33 miliwn yn cynnwys nifer sylweddol o grantiau a gafwyd drwy'r Tîm Adfywio a Datblygu Economaidd, gan gynnwys y cyllid lefelu ar gyfer y pafiliwn. Roeddent wedi derbyn £23 miliwn gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a dyraniad o £3 miliwn ar gyfer y cynllun Metro ym Mhorthcawl. Cawsant ddyraniad o £3.5 miliwn ar gyfer Heol Ewenni, Maesteg a bron i £800,000 ar gyfer codi tâl am gerbydau allyriadau isel iawn. Roedd tynnu'r £4.9 a grybwyllwyd yn benodol i lawr yn ymwneud â'r grantiau hynny.

Dywedwyd wrth Aelod na allai gyflwyno cwestiwn gan ei fod wedi gadael y Siambr pan oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Gofynnodd Aelod am bleidlais wedi'i chofnodi.

Bu'r aelodau'n trafod mynychu cyfarfodydd o bell, sicrwydd eu bod wedi bod yn bresennol ar gyfer y ddadl gyfan, ymddiriedaeth a thryloywder a gofyniad LlC i ddarparu cyfarfodydd hybrid. Gofynnodd yr Aelodau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd adolygu gweithdrefnau wrth symud ymlaen ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi, a'r canlyniad oedd:

Dros: Y Cynghorwyr H Bennett, A Berrow, JP Blundell, E Caparros, N Clarke, Chris Davies, HJ David, N Farr, P Ford, J Gebbie, R Goode, H Griffiths, S Griffiths, D Hughes, M Hughes, RM James, P Jenkins, M Jones, M Kearn, W Kendall, J Llewellyn-Hopkins, J Pratt, R Smith, JC Spanswick, R Penhale Thomas, J Tildesley, G Walter, H Williams, R Williams, E Winstanley = 30 pleidlais

Yn erbyn: Y Cynghorwyr F Bletsoe, S Bletsoe, S Easterbrook, D Harrison, M John, I Spiller, T Thomas, A Wathan, Amanda Williams, M Williams, T Wood, E Richards = 12 pleidlais

PENDERFYNWYD:

- Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i adolygu gweithdrefnau wrth symud ymlaen gyda golwg ar bresenoldeb o bell a phleidleisio mewn cyfarfodydd, ac adrodd yn ôl mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.
- Bod y Cyngor yn nodi diweddariad Chwarter 1 o Raglen Gyfalaf y Cyngor 2023-24 hyd 30 Mehefin 2023 (Atodiad A).
- Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B).
- Bod y Cyngor yn nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelid ar gyfer 2023-24 (Atodiad C).

157. CYNLLUN CYFLAWNI CYNLLUN CORFFORAETHOL 2023-24 A'R FFRAMWAITH PERFFORMIAD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn cynnig Cynllun Cyflawni Cynllun Corfforaethol (CPDP) blwyddyn i gefnogi Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor a Fframwaith Perfformiad Corfforaethol wedi'i ddiweddaru i gynorthwyo'r Cyngor i fesur cynnydd arno. Esboniodd fod yr adroddiad yn seiliedig ar lawer o ymgysylltu, ymgynghori ac adborth o amrywiaeth o ffynonellau dros yr ychydig fisoedd diwethaf, gan gynnwys gan Aelodau o ran sesiwn briffio aelodau. Roedd yn adlewyrchu rhai o'r awgrymiadau a'r argymhellion gan Aelodau a rhai o'r argymhellion gan Archwilio Cymru ynghylch sut yr oedd yr awdurdod yn rheoli perfformiad wrth symud ymlaen.

Eglurodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad eu bod wedi symud i ddull cynllun cyflawni blynyddol. Ers y sesiwn briffio ddiweddar i'r holl Aelodau, roeddent wedi treulio amser

gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i barhau i wneud gwelliannau fel yn y cynllun oedd o'u blaenau. Roedd Cynllun Cyflawni newydd y Cynllun Corfforaethol yn cynrychioli casgliad llawer gwell o wybodaeth ar gyfer llywio'r broses o wneud penderfyniadau a dylai roi darlun cynhwysfawr o gynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol. Amlinellodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad y prif welliannau gan ychwanegu bod y Graddedigion yn ei thîm wedi dechrau ar y gwaith cefndirol ac y ceid diweddariad yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gobeithiai fod hon yn ddogfen ddefnyddiol oedd yn esbonio rhai pethau oedd wedi bod yn aneglur yn y gorffennol ac yn amlinellu'n ddefnyddiol rolau a chyfrifoldebau swyddogion ac Aelodau a'r berthynas a'r ddibyniaeth rhyngddynt.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i'r Prif Weithredwr, y Rheolwr Polisi a Pherfformiad a'i thîm am ymgysylltu â'r Pwyllgor ac am yr holl waith yr oeddent wedi ei wneud ar y Cynllun Cyflawni a'r Fframwaith Perfformiad. Roedd hwn yn gam mawr yn y cyfeiriad cywir wrth fynd i'r afael â rhai o'r gwendidau yn ymwneud â rheoli perfformiad, a godwyd gan Archwilio Cymru. Roedd yn ymwybodol mai dyma ddechrau'r broses ac y byddai'r dogfennau'n esblygu, yn hyblyg ac yn rhwydd wrth i'r Cynllun Cyflawni a'r Fframwaith symud i'r cam nesaf. Ychwanegodd, yn hytrach na monitro meysydd gwasanaeth o fewn eu seilos unigol eu hunain, bod angen iddynt fabwysiadu ymagwedd fwy cyfannol a chysoni gwaith craffu yn fanwl i ganolbwyntio mwy ar berfformiad. Roedd y Tîm Craffu yn gweithio ar fodel arfaethedig ar gyfer hyn, a châi'r dewisiadau eu cyflwyno maes o law.

Diolchodd Aelod i'r swyddogion am yr asesiad gonest o ble yr oedd yr awdurdod a ble yr oedd yn mynd. Cyfeiriodd at y modd yr oeddent wedi defnyddio'r adborth a ddarparwyd gan Archwilio Cymru yn benodol i egluro'n well sut byddai llwyddiant yn edrych i gael ei rannu fel Cyngor, fel trigolion a rhanddeiliaid.

Eglurodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad sut y byddai Cynllun Datblygu'r Cynllun Corfforaethol yn mynd i'r afael â pheth beirniadaeth a rhoddodd nifer o enghreifftiau.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod rhai elfennau yr oeddent yn dal i fod mewn deialog yn eu cylch gydag Archwilio Cymru, lle nad oeddent yn cytuno'n llwyr. Roedd enghreifftiau da iawn o fewn y Cyngor o ddefnyddio data i lywio penderfyniadau strategol, yn enwedig ym maes addysg a chymorth i deuluoedd ac o fewn gofal cymdeithasol, ac roeddent yn credu nad oedd hynny wedi cael ei gydnabod yn ddigonol. Roedd rhai elfennau eraill lle yr oeddent wedi ystyried y sylwadau a lle roedd angen gwella.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Tîm oedd wedi gweithio ar hyn ac i'r Pwyllgorau Craffu, Aelodau'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol am eu mewnbwn. Roedd yn cydnabod y byddent yn parhau i weithio ar ddata meintiol a dangosyddion ac y byddai'r cynllun yn parhau i esblygu gyda blaenoriaethau newydd.

Gofynnodd Aelod pa fecanweithiau oedd ar waith i wneud yn siŵr bod data’n gywir. Amlinellodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad y ddwy brif ffordd y byddent yn gwneud hynny yn y blynyddoedd i ddod.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- wedi ystyried a chytuno ar ddrafft cyntaf Cynllun Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2023/24 yn Atodiad 1.
- wedi ystyried a chytuno ar y Ramnath Perfformiad Corfforaethol wedi'i ddiweddaru yn Atodiad 2 a’r ffordd orau i ddefnyddio'r ddogfen ar draws y Cyngor.

158. CYNIGION AR GYFER Y TREFNIADAU TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD YN DILYN Y NEWID I UN BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (BGC) AR GYFER CWM TAF MORGANNWG

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol adroddiad ar y trefniadau craffu arfaethedig ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, yn dilyn y newid i un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer Cwm Taf Morgannwg. Esboniodd, er mwyn lleihau dyblygu a’i gwneud yn bosibl cydweithio’n fwy effeithiol, fod y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oedd yn eu lle ar y pryd o fewn yr ôl troed wedi symud ymlaen i uno er mwyn creu BGC newydd ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg. Byddai’r uno hwn yn galluogi’r BGC i alinio ag ôl troed y bwrdd iechyd wrth symud ymlaen.

Eglurodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd y BGC, fod gofyniad statudol wedi cael ei nodi yn y ddeddfwriaeth a chanllawiau i Bwyllgor Craffu dynodedig Llywodraeth Leol yr awdurdod perthnasol graffu ar waith y BGC.

Amlinellodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol yr aelodaeth a’r trefniadau arfaethedig ar gyfer Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf Morgannwg a chyfeiriodd sylw’r Aelodau at y Cylch Gorchwyl Drafft, a fyddai, unwaith y cytunwyd arno, yn cael ei adolygu o bryd i’w gilydd, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i’r diben. Awgrymwyd y dylid symud ymlaen i benodi’r Cadeirydd yn flynyddol, ond er mwyn cael mwy o gysondeb cynigiwyd nad oedd angen cylchdroi penodiadau rhwng awdurdodau yn flynyddol ac y gellid ailbenodi cadeirydd presennol. Cynigiwyd symud y trefniant hwn yn ei flaen am gyfnod o ddwy flynedd cyn cynnal adolygiad o'r trefniant.

Cyfeiriodd Aelod at bwynt 3.12 yn yr adroddiad ynghylch penodi’r Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd ac awgrymodd ei bod yn bwysig i awdurdodau cyfansoddol gael cyfran o berchnogaeth yn y corff newydd hwn ac y dylid dod â chylchdroi i mewn, o leiaf bob 3 blynedd, i fod o gymorth i roi aeddfedrwydd ychwanegol i'r corff. Derbyniai’r ddadl y byddai arbenigedd yn cael ei ennill ond roedd yna wrthddadl, ac awgrymodd welliant.

Eglurodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol y gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl Drafft a gwneud unrhyw sylwadau pellach fel y teimlent yn briodol ac felly nad oedd angen newid ar hyn o bryd gan y byddai unrhyw sylwadau'n cael eu cymryd i fyny gan y BGC a chraffu. Byddai'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.

Gofynnodd Aelod pa gymorth y gallai aelodau etholedig ddisgwyl ei gael i sicrhau y gallent graffu’n briodol ar waith y BGC. Atebodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol y byddent yn trefnu hyfforddiant fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl ac y byddent yn cysylltu â'r Comisiynydd Llesiant i weld beth oedd ar gael.

Atebodd Aelod y Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio ei fod ef a’r Arweinydd wedi cael cyfarfod cynhyrchiol iawn gyda Chomisiynydd newydd Cenedlaethau’r Dyfodol ychydig wythnosau ynghynt lle buont yn trafod y cymorth a gynigir i awdurdodau lleol ac i Aelodau etholedig gan Swyddfa’r Comisiynydd. Cytunasant i drefnu hyfforddiant ynghylch y ffordd y dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol gael ei hymgorffori mewn awdurdodau lleol. Roedd yn bwysig sicrhau bod yr Aelodau, fyddai’n cymryd rhan yn y craffu hwn, yn meddu ar y ddealltwriaeth hon o nodau’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- wedi cytuno i greu Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys Aelodau Etholedig o Gynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr i graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg;
- yn cymeradwyo Cylch Gorchwyl Drafft Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, fel y nodir yn Atodiad 1 ac wedi gwneud sylwadau pellach.
- wedi penderfynu ar aelodau Statudol y BGC (anweithredol) a 'chyfranogwyr gwadd' i wasanaethu fel aelodau cyfetholedig ar Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Cwm Taf fel yr amlygwyd yn adran 3 yr adroddiad.
- yn cytuno i symud ymlaen â threfniadau'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, a amlygwyd yn adran 3 yr adroddiad, gan gychwyn o ddechrau Blwyddyn Gyngor 2023/24.
- wedi cytuno y byddai'r cymorth a'r trefniadau gweinyddol, a amlygwyd yn adran 3 yr adroddiad, yn cael eu darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, am gyfnod o 2 flynedd, yn cychwyn o ddechrau Blwyddyn Gyngor 2023/24 cyn cynnal adolygiad o'r trefniadau.
- wedi cytuno y dylid darparu hyfforddiant ar gyfer pob Aelod o Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Cwm Taf Morgannwg i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl newydd.

159. PENODIADAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn hysbysu'r Aelodau bod lleoedd gwag ar gyfer Aelodau Annibynnol ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor a bod angen penodiadau i lenwi'r swyddi gwag hyn. Hefyd yn dilyn adborth o gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau, fe argymhellwyd cyflwyno adroddiad i'r Aelodau i gadarnhau cylch gorchwyl y Pwyllgor a'r cefndir deddfwriaethol.

Amlinellodd y Swyddog Monitro rôl a swyddogaethau'r Pwyllgor fel y nodir yn yr adroddiad. Roedd y Cyngor eisoes wedi cymeradwyo cynyddu aelodaeth y Pwyllgor i 8 aelod, oedd yn ychwanegu Aelod annibynnol ychwanegol at y cyfansoddiad. Roeddent wedi cael gwybod yn ddiweddar am farwolaeth drist Mr Jeff Baker, oedd yn aelod annibynnol ac yn fwy diweddar, roeddent wedi derbyn ymddiswyddiadau Mrs Judith Keeley a Mr Cliff Jones, y ddau yn aelodau annibynnol. Roedd gan y Pwyllgor, felly, 4 lle gwag ar gyfer aelodau annibynnol.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod y panel, yn dilyn proses gyfweld drylwyr, wedi argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r penodiadau canlynol: Mr Peter Baker, Miss Sue Maughan, Mr Roy Lynch a Mr Shawn Cullen. Eisteddodd y Cyng Graham Walters ar y panel cyfweld a chadarnhaodd fod y rhain yn ymgeiswyr addas.

Gofynnodd Aelod a oedd yn gywir mai dim ond un ferch oedd yn cael ei phenodi a gofynnodd pa gamau oedd yn cael eu cymryd i ddenu mwy o ferched pan fyddai swyddi gwag yn codi yn y dyfodol.

Atebodd y Swyddog Monitro fod 3 neu 4 ymgeisydd wedi bod ar y dechrau ond mai 1 oedd wedi aros i'r cam cyfweld gan fod y lleill wedi tynnu'n ôl o'r broses.

Eglurodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn eithaf pryderus oherwydd y byddai'r Pwyllgor hwn yn edrych ar safonau ar draws y Fwrdeistref Sirol ar gyfer pob rhyw ac mai dim ond un ferch oedd yna. Roedd y penodiadau hyn am bedair blynedd ac roedd angen iddynt annog gwell cynrychiolaeth o blith y trigolion.

Atebodd y Swyddog Monitro fod yna reoliadau yr oedd angen iddynt eu dilyn wrth hysbysebu, a dywedai'r rhain pwy oedd yn gymwys ac wedyn roeddent wedi gosod yr hysbysebion priodol a'u cylchredeg i awdurdodau lleol eraill. Ni chawsant ymateb gwych i'r pedair swydd wag ond teimlai fod yr ymgeiswyr yn fwy amrywiol o ran eu proffil oedran, y ddemograffeg, eu gyrfaoedd a'r lle yr oeddent yn byw ac felly bod yna well cydbwysedd yn awr.

Cytunodd Aelod gyda'r Dirprwy Arweinydd a thynnodd sylw at y ffaith, o ran penodiadau gwleidyddol, fod hynny o fewn gallu Arweinwyr Grwpiau. Ychwanegodd nad oedd gan ei grŵp ef gynrychiolaeth ar y Pwyllgor hwnnw.

Nododd Aelod y gallai fod diffyg amrywiaeth ar draws cyfansoddiad y panel ac awgrymodd yn y dyfodol, wrth edrych ar hyrwyddo'r cyfleoedd hyn, eu bod hefyd yn cysylltu â sefydliadau fel Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru, Stonewall a Chyngor Hiliaeth Cymru i gael mwy o amrywiaeth.

Gofynnodd aelod i Aelodau'r Pwyllgor Safonau, ar wahân i ryw, ai'r bobl a benodwyd oedd y bobl orau yn eu barn hwy i gyflawni'r rôl y gofynnwyd iddynt ei chyflawni. Cadarnhaodd y Cynghorydd Walter mai dyna oedd y gwir. Roedd pedwar ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf allan o'r bobl y gwnaethant eu cyfweld.

Cadarnhaodd y Cyng M Williams ei fod ef wedi gorfod tynnu'n ôl o'r broses ddethol oherwydd bod ganddo fuddiant rhagfarnus ond rhoddodd sicrwydd i'r holl Aelodau fod y rownd gyntaf wedi bod yn eithaf cryf ac y byddai pwy bynnag a ddeilliai o hynny yn mynd i fod yn dda. Roedd yn siomedig bod yr ymgeiswyr benywaidd wedi tynnu'n ôl am ba reswm bynnag a chefnogai amrywiaeth cyn belled â bod y bobl yn gymwys i wneud y swydd.

<u>PENDERFYNWYD</u>: Bod y Cyngor:

- yn nodi cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau a'r cefndir deddfwriaethol yr oedd y Pwyllgor yn gweithredu ynddo;
- wedi penodi'r Aelodau Annibynnol a amlinellwyd ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad i ddod i rym ar unwaith am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd;
- yn nodi y câi'r Cadeirydd ei benodi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.

160. <u>ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI</u>

Hysbysodd y Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol y Cyngor am adroddiad gwybodaeth i'w nodi, oedd wedi cael ei gyhoeddi ers y cyfarfod arferol diwethaf. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau oedd yr adroddiad gwybodaeth.

Cofnododd yr Arweinydd ddiolch y Cyngor i'r Cadeirydd oedd yn gadael,
Mr Jones OBE, ac i Mrs J Keily am eu cyfraniad i waith y Pwyllgor Safonau.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.

161. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

**Y Cynghorydd Freya Bletsoe i Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol**

Mae adroddiadau dros y penwythnos ym mhapur newydd y Times wedi tynnu sylw at y ffaith, flynyddoedd yn ddiweddarach, fod gan adeiladau cyhoeddus fel ysgolion, swyddfeydd, llyfrgelloedd ac yn y blaen lefelau sylweddol o asbestos yng ngwead yr adeiladau hynny. Mae'r adroddiad yn pwysleisio, er eu bod yn gwybod am y materion hyn, nad yw awdurdodau'n gwneud fawr ddim, os o gwbl, i gael gwared ar yr asbestos ac felly liniaru'r risg i iechyd pobl.

Yn gyfreithiol, dylid cadw cofrestr o asbestos fesul ystafell ar gyfer pob mangre yr effeithiwyd arno, ac nid oes gennyf amheuaeth y bydd nifer sylweddol o safleoedd y mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn eu rheoli neu'n eu cynnal ag asbestos ynddynt, a gaf fi ofyn beth y mae'r awdurdod hwn yn ei wneud i liniaru niwed yn y gweithle i athrawon, llyfrgellwyr a staff swyddfa oddi wrth effeithiau hirdymor asbestos a beth mae'r awdurdod hwn yn ei wneud i ddiogelu plant sy'n cael eu haddysgu mewn ystafelloedd sydd ag asbestos ynddynt – yn unol â'n rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

A gaf i hefyd ofyn, fel aelod etholedig a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu, am gael gweld y gofrestr risg gyfredol a'r adroddiadau cysylltiedig ar gyfer asbestos sydd wedi ei gynnwys yn y safleoedd yr ydym ni'n eu goruchwylio.

**Ymateb**

Mewn ymateb i'r cwestiwn, byddem yn cynghori mai ymagwedd a pholisi'r awdurdod ar reoli asbestos yw mynd ati i reoli'r asbestos yn y fan a'r lle, er mwyn sicrhau bod cynhyrchion asbestos yn parhau i fod mewn cyflwr da a diogel, gan gyflawni ein rhwymedigaethau statudol o dan Reoliadau Rheoli Asbestos 2012 y fframweithiau cyfreithiol sy'n sail i reoli asbestos mewn eiddo annomestig.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu canllawiau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar reoli asbestos sy'n cynghori nad yw presenoldeb asbestos yn berygl i iechyd pan gaiff ei reoli a'i gynnwys yn ddiogel ac nad yw'n beryglus ond pan fydd rhywun yn tarfu arno. Nid ydym yn ymroi'n systematig i gael gwared ar asbestos o fewn adeiladau, oherwydd y gall cael gwared ar asbestos yn ddiangen fod yn fwy peryglus na'i adael yn ei le a'i reoli. Fodd bynnag, rydym yn cymryd camau i gael gwared ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos lle yr argymhellir hyn fel rhan o'r dull rheoli, a gwneir hyn bob amser drwy gontractwyr arbenigol yn unol â methodolegau sydd wedi eu cymeradwyo. Mae'r dull hwn wedi gweld gwariant o tua £190,000 ar arolygon a monitro asbestos a buddsoddiad pellach o dros £1,000,000 ar adfer a thynnu asbestos, o flwyddyn ariannol agoriadol 2020/2021 hyd ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/2023. Nid yw'r gwariant hwn yn cynnwys gwaith cysylltiedig ag asbestos sy'n rhan o waith cynnal a chadw cynlluniedig neu brosiectau adeiladu ac felly bydd cyfanswm y gwariant ar waith sy'n ymwneud ag asbestos yn uwch.

Mae presenoldeb asbestos yn ein portffolio eiddo a reolir wedi cael ei nodi drwy arolygon rheoli asbestos sydd wedi cael eu cynnal ar gyfer pob adeilad a reolir gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Defnyddiwyd yr adroddiadau hyn i greu cofrestr risg ar gyfer yr holl Ddeunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos yn ein hadeiladau sy'n cynnwys dros 5000 o gofnodion o fewn tua 170 o safleoedd. Caiff pob eitem ei hail-arolygu'n flynyddol drwy raglen dreigl o arolygon ail-archwilio asbestos blynyddol, sy'n monitro ac yn cofnodi cyflwr yr holl ddeunyddiau hysbys sy'n cynnwys asbestos. Ategir y gwiriad blynyddol hwn gan arolygiad chwarterol o'r adeiladau a gynhelir gan berson cyfrifol y safle neu

aelod priodol o’r tîm. Mae'r gofrestr risg asbestos electronig a gedwir yn ganolog yn cael ei diweddaru ar sail canfyddiadau'r arolygon hyn a bydd camau adferol dilynol yn cael eu cymryd yn ôl yr angen. Rheolir y broses hon gan Swyddog Asbestos penodedig yr awdurdod sy'n gweithio gydag ymgynghorwyr asbestos arbenigol a chontractwyr tynnu asbestos trwyddedig y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch i sicrhau bod y broses hon yn cael ei chwblhau yn unol â'r rheoliadau perthnasol. Byddai'r Swyddog Asbestos yn gallu mynd â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu drwy'r gofrestr pe bai angen.

Cyhoeddodd yr awdurdod Gynllun Rheoli Asbestos Corfforaethol a Pholisi Rheoli Asbestos newydd yn 2021 a chaiff hwn ei adolygu'n flynyddol yn unol ag unrhyw newidiadau statudol, rheoliadol neu ganllawiau. Ar gyfer pob safle y mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ei reoli, ategir hyn gan Gynllun Rheoli Asbestos Lleol sy'n cadw copïau o gofrestrau risg mwyaf diweddar y safleoedd a chanllawiau rheoli asbestos. Rhaid i'r ffeiliau hyn gael eu hadolygu gan yr holl bersonél sy'n gweithio ar eiddo i sicrhau nad aflonyddir ar y Deunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos a bod eu cyflwr yn cael ei gynnal. Mae'r ffeiliau hyn hefyd yn cynnwys arolwg rheoli asbestos y safle ac maent ar gael i unrhyw un sy'n dymuno adolygu'r ddogfennaeth

**Cwestiwn atodol gan Y Cynghorydd Freya Bletsoe**

Hoffwn ddiolch i Aelod y Cabinet a’r swyddogion am eu hymateb cynhwysfawr, ac mae’n galonogol clywed bod CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cymryd eu rhwymedigaethau statudol o ddifrif ac yn eu gweithredu gyda’r fath ddiwydrwydd. Pwy sy'n cynnal yr arolygiadau hyn? A yw’n swyddog enwebedig o fewn CBS Pen-y-bont ar Ogwr neu a yw’n cael ei roi ar gontract allanol i gwmni trydydd parti ac os yw’n swyddog, a oes ganddo’r cymwysterau gofynnol i gynnal yr arolygiadau hyn? Ac yn olaf, byddwn yn croesawu'r cyfle i gwrdd â'r swyddog asbestos fel y cynigiwyd yn yr ymateb i ddeall ymhellach safbwynt yr awdurdod ar y pwnc hynod ddylanwadol a phwysig hwn.

**Ymateb**

Mae gennym swyddog asbestos enwebedig yn ei swydd a bydd yn cysylltu â chi i ddod o hyd i amser addas i chi ddod draw a chael y trafodaethau hynny. Y person hwnnw oedd yn gyfrifol am gynnal yr arolygiadau hynny.

**Y Cynghorydd Ian Williams i Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol**

Gyda nifer yr ymwelwyr yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn ei chael hi’n anodd cyrraedd y lefelau cyn y pandemig, a gaf i ofyn i Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Chyfreithiol pa fesurau sy’n cael eu cymryd i weithio gyda chwmnïau bysiau i ddiogelu llwybrau bysiau presennol (Gweler ynghlwm) a lliniaru unrhyw doriadau pellach i wasanaethau sy’n dal i leihau o hyd?

A yw Aelod y Cabinet yn barod i wneud ymrwymiad i’r Cyngor hwn y bydd yn sicrhau na fydd cymorthdaliadau’n cael eu torri ac na fydd y cyswllt pwysig hwn i lawer o drigolion, sef gwasanaethau bysiau lleol, yn gweld unrhyw doriadau pellach yn ystod tymor y Cyngor presennol hwn.

**Ymateb**

Mewn ymateb i'r cwestiwn, byddem yn dweud mai gweithgaredd masnachol yw darparu gwasanaethau bws yn y Sir, sy’n cael eu darparu gan y sector preifat ac nad yw’n gyfrifoldeb statudol ar yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, byddem yn datgan bod yr awdurdod yn ymgysylltu â'r gweithredwyr bysiau masnachol gyda golwg ar y gwasanaethau lleol a rhanbarthol. Yn fwyaf diweddar, daeth y Cynllun Argyfwng Bysiau (BES) i ben ar 24 Gorffennaf. Cafodd ei roi yn ei le gan Lywodraeth Cymru, i gynorthwyo

cwmnïau bysiau i ymdopi drwy gyfnod yr adferiad ar ôl y pandemig gan nad oedd nifer y teithwyr wedi dychwelyd i'w lefelau cyn Covid, a fyddai wedi rhoi gwasanaethau mewn perygl fel arall. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddisodli gan Gronfa Pontio Bysiau (BTF) i sicrhau y bydd y mwyafrif o'r gwasanaethau presennol yn cael eu diogelu, er y gall rhai gwasanaethau newid i adlewyrchu patrymau teithio gwahanol yn dilyn y pandemig. Bydd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu model ariannu cynaliadwy tymor hwy fydd yn pontio'r bwlch i fasnachfreinio fel y crybwyllwyd gan Lywodraeth Cymru.
Yn y pen draw, niferoedd teithwyr ar drafnidiaeth gyhoeddus fydd yn sicrhau eu hyfywedd, ac felly dylai etholwyr ystyried ei fod yn fater o naill ai defnyddio'r gwasanaethau neu eu colli o bosibl.

Gan fod gwasanaethau bysiau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar y cyfan yn cael eu rhedeg fel gwasanaethau masnachol, fel y nodwyd uchod, ac nad ydynt yn derbyn unrhyw gymorthdaliadau uniongyrchol gan y Cyngor, mae'n amhosibl gwarantu na fydd gostyngiadau mewn gwasanaethau yn y dyfodol yn cael eu gwneud gan gwmnïau bysiau am y rhesymau a grybwyllwyd eisoes.

**Cwestiwn atodol gan Ian Williams**

Mae fy nghwestiwn atodol yn ymwneud â gwasanaethau bysiau ond yn cael ei gyfeirio at Aelod y Cabinet dros Adfywio. Yng ngoleuni'r ateb a roddwyd gan Aelod y Cabinet a heb unrhyw sicrwydd y bydd llwybrau'r bysiau yn cael eu diogelu a allai arwain at ostyngiad posibl yn nifer yr ymwelwyr yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, gyda symiau enfawr o arian yn cael eu gwario ym Maesteg a Phorthcawl yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf pan nad yw Pen-y-bont ar Ogwr hyd yn oed yn cael ei ystyried yn deilwng o ddigon o arian i ddadbedestreiddio canol ei thref, cadw toiledau cyhoeddus ar agor nac ariannu'r cynllun symudedd siopa, sydd i gyd yn cau llawer o drigolion allan o ganol ein tref. Pa gynlluniau sydd gan y Cyngor hwn i adfywio'r economi yn ystod y dydd yng nghanol ein tref yn y 3 blynedd a hanner nesaf? Peidiwch â chynnwys y posibilrwydd o goleg newydd gan nad yw hyd yn oed wedi mynd drwy'r broses gynllunio ac ni fydd ond ar agor am 40 wythnos o'r flwyddyn os caiff ei adeiladu o gwbl.

**Ymateb**

Rwyf yn falch iawn o'r datblygiadau sy'n digwydd ym Mhorthcawl a Maesteg yn sicr, ond rwyf yn cytuno'n llwyr y gallwn ddod o hyd i fwy o bethau i'w gwneud ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn ddiweddar, cefais daith gynhwysfawr iawn o amgylch Canol y Dref yng nghwmni'r Prif Swyddog Adfywio, yn trafod yr union beth hwnnw. Rhan o'r materion a welwn o fewn canol y dref yw bod llawer o'r adeiladau yn eiddo i berchnogion preifat, sydd wedyn yn creu llawer mwy o anhawster o ran sut y gallwn gynllunio ac adfywio'r unedau hynny. Mae'n rhywbeth y mae arnaf wir eisiau ei wthio ymlaen. Mae'n rhywbeth yr ydym yn edrych arno o ran creu lleoedd a strategaethau eraill. Fel y bydd Aelodau Canol y Dref yn gwybod, rwyf hefyd yn awyddus iawn i eistedd i lawr gyda Chyngor y Dref i edrych ar y ffordd orau o wneud hynny a sut y gallwn gydweithio i wthio hynny yn ei flaen. O ran nifer yr ymwelwyr a dadbedestreiddio, gwn y bu llawer o drafod ynghylch pedestreiddio Canol y Dref. Rhaid imi ddweud nad wyf yn meddwl mai dyma'r fwled arian y mae pawb yn meddwl y bydd. Fodd bynnag, rwyf yn fwy na pharod i edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i ddod o hyd i'r gorau o ddau fyd. Gwn y bu trafodaeth o'r blaen ynghylch pam y caniateir i rai faniau fynd i ganol y dref drwy'r bolardiau ac mae hynny'n syml oherwydd rheoliadau'r heddlu, nid yr awdurdod lleol, ac nid oherwydd yr hyn yr ydym ni'n dewis ei ganiatáu. Unwaith eto, rwyf yn fwy na pharod i weithio a thrafod gydag aelodau ynghylch y ffordd y gallwn edrych ar gynlluniau newydd i geisio annog mwy o ymwelwyr ar ddiwedd y dydd, er, yn sylfaenol, rwyf yn meddwl bod angen inni ddod o hyd i ffyrdd o lenwi eiddo newydd. Mae angen i ni ddod o hyd i fusnesau newydd sydd eisiau dod i fod yn gyffrous ynghylch Canol ein Tref, ac nid yw hynny'n hawdd, ond mae'n rhywbeth yr wyf yn sicr yn benderfynol o'i wthio ymlaen ac yn rhywbeth y mae

arnaf eisiau ei weld yn digwydd yng Nghanol ein Tref oherwydd bod Canol ein Tref yn haeddu bod yn wych, a chredaf y gallwn wneud mwy.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Ross Thomas**.

Cytunaf yn llwyr â hanfod cwestiwn gwreiddiol y Cynghorydd Williams; mae gwasanaethau bws yn hollol hanfodol. Yn anffodus, rydym wedi cael hysbysiad yn ardal Maesteg bod y gwasanaeth ben bore yn cael ei dynnu'n ôl oddi wrth ddarparwr cenedlaethol. Byddai hynny'n cael effaith ddinistriol ar nifer o bobl sy'n ceisio cyrraedd cyfleoedd cyflogaeth, darpariaeth gofal iechyd, pob math o faterion mewn gwirionedd. Rwyf yn gwerthfawrogi bod y cwmnïau masnachol yn wynebu penderfyniadau anodd yn debyg iawn i fel mae'r Cyngor hwn yn flynyddol. Mae’n wir yn ymddangos bod diffyg meddwl ar y cyd, meddwl cydgysylltiedig ar draws Cymru gyfan o ran trafnidiaeth gyhoeddus ar draws y rhwydwaith. Felly pa sgyrsiau mae'r Cyngor hwn yn eu cael, pa bwysau mae'r Cyngor hwn yn ei roi ar Lywodraeth Cymru i gael y dull cydgysylltiedig hwnnw a chynllun hirdymor ar gyfer gwasanaethau bysiau cynaliadwy a all fod o gymorth gwirioneddol i bobl yn y fwrdeistref hon?

**Ymateb**

Fel yr oedd y sefyllfa yr oeddem ynddi chwe mis yn ôl, gallem fod wedi methu â rhedeg bysiau o gwbl yn y pen draw. Cwmnïau preifat ydy'r holl wasanaethau bws yn y Fwrdeistref Sirol, nid ydynt yn statudol a does dim rhaid i ni eu hariannu. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud ledled Cymru er mwyn i Lywodraeth Lafur Cymru roi arian yno i gadw'r gwasanaeth hwnnw i fynd drwy'r flwyddyn hon hyd fis Mawrth nesaf. Mae gennym ni lawer mwy o waith i'w wneud yn awr i weld i ble rydym ni'n mynd a beth yr ydym ni'n ei wneud i gefnogi'r gwasanaethau bysiau o fis Ebrill 2024 oherwydd eu bod nhw'n hanfodol i'n cymunedau. Nid ydynt yn wasanaeth cyhoeddus, ond mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau o fewn y ddwy flynedd nesaf i ddod â system fasnachfreinio i mewn, lle byddwn yn ceisio dod â’r gwasanaeth bysiau yn ôl i reolaeth gyhoeddus, oherwydd y camgymeriad mawr oedd yr un a wnaed flynyddoedd lawer yn ôl, pan gawsant eu dadreoleiddio, ac rydym wedi diweddu gyda'r sefyllfa sydd gennym yn awr. Nid oes gennym lawer o reolaeth ond mae llawer o gefnogaeth yn mynd i mewn gan Lywodraeth Cymru. Mae swyddogion y Fwrdeistref Sirol hon wedi gweithio’n galed ddydd a nos am yr ychydig wythnosau a'r misoedd diwethaf i gael sefyllfa’r cymorthdaliadau i barhau. Rydym yn darparu cymorth o'r gyllideb refeniw ar gyfer yr arosfannau bysiau nad ydynt am ddim ac eto, heb fod yn statudol. Efallai fod angen inni edrych ar hyn yn y dyfodol. Mae arian yn mynd i mewn yno, ond gallaf eich sicrhau, mae llawer o drafod y tu ôl i'r llenni gyda’r Gweinidogion a’r swyddogion i wneud yn siŵr bod dull cydgysylltiedig ledled Cymru. O ran Maesteg, pan edrychon nhw ar y gwasanaeth hwn, roedd 9 person neu lai nag un person fesul taith bws yn defnyddio'r gwasanaeth bws. Roedd yn mynd tuag at £70,000 i £80,000 o gymhorthdal y byddai'n rhaid i ni ei roi i mewn. Byddai'n rhatach talu am dacsi. Gyda’r sefyllfa ariannol fel y mae, ni allwn gyfiawnhau gwario’r math hwnnw o arian mewn gwirionedd dros un person fesul taith bws.

**Y Cynghorydd Martin Williams i’r Arweinydd**

Mae Comin Walia Coety yn dirwedd unigryw sy’n gorchuddio dros 1,000 hectar o’n bwrdeistref sirol yn ymestyn o Bencoed i Sarn, Coety i Fryncethin a thu hwnt. Mae'r comin yn gynefin amrywiol ac yn nodwedd y dylem fod yn haeddiannol falch ohoni. Fodd bynnag, cornel o'n sir sydd wedi mynd yn angof i raddau helaeth ydyw, yn cael ei gadael i'w chynnal gan wirfoddolwyr ar gyllideb brin. A allai'r Arweinydd ddweud wrthyf, os gwelwch yn dda, sut mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi Walia Coety ar hyn o bryd a pha gynlluniau sydd gan yr awdurdod i warchod y cynefin hanfodol hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Ymateb**

Deellir bod Bwrdd Gwarchodwyr yn rheoli dwy ardal o dir comin (Mynydd-y-Gaer gan gynnwys coedydd Allt-y-Rhiw a Chefn Hirgoed/Hirwaun) sy’n ymestyn i gyfanswm o tua 2,400 acer.

Mae'r ardaloedd hyn yn nodedig am eu golygfeydd hyfryd ac mae priffyrdd metelaidd a hawliau tramwy cyhoeddus yn eu croesi. Fel rheolwyr tir mae Bwrdd Gwarchodwyr Walia Coety yn gwneud gwaith cynnal a chadw ond mae angen iddo hefyd ymdrin â niwsans megis sbwriel sy’n cael ei adael gan bobl sy’n croesi’r comin ac anifeiliaid sy’n crwydro.

Hyd at 2018 roedd y Cyngor wedi darparu £21,170 y flwyddyn fel cymorth ariannol i Fwrdd y Gwarchodwyr ond oherwydd yr angen i wneud arbedion ariannol penderfynwyd bod y cyllid hwn yn dod i ben.

Ers hynny deellir bod Bwrdd y Gwarchodwyr wedi ceisio cymorth ariannol o ffynonellau eraill megis y Cynghorau Tref a Chymuned y mae'r tiroedd comin wedi eu lleoli o fewn eu hardaloedd, ynghyd â'r tirfeddiannwr, Dunraven Estates.

Yn 2021 gofynnodd Bwrdd Gwarchodwyr Walia Coety am gymorth ariannol gan y Cyngor i gynorthwyo gyda'r baich cynyddol o gynnal a chadw. Rhoddodd y swyddogion ystyriaeth i'r mater gan mai dim ond ychydig o bosibilrwydd oedd i gynorthwyo.

Yr adeg honno, penderfynodd y Cyngor y gellid darparu grant blynyddol o hyd at £5,000 fel cyfraniad at faich cynnal a chadw Bwrdd Gwarchodwyr Walia Coety yn amodol ar gyflwyno rhaglen waith gan Fwrdd Gwarchodwyr Walia Coety a thalu’n ôl-weithredol ar ôl cyflwyno anfonebau/tystiolaeth bod y gwaith wedi cael ei wneud.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Martin Williams**

Diolch am yr ateb i'r cwestiwn. Cydnabuwyd bod Walia yn adnodd naturiol gwerthfawr iawn i’r Fwrdeistref Sirol a hefyd o fewn yr ateb ysgrifenedig cydnabyddir bod cyfraniad yr awdurdod hwn i Fwrdd y Gwarchodwyr wedi gostwng o £21,000 i 0 ac yna cafwyd cytundeb, pan aeth yn ôl hyd at £5,000 y flwyddyn. Mae pedwar o'r Cynghorau Cymuned lleol, Pencoed, Coety, Llangrallo Uchaf a Sain Ffraid i gyd bellach yn cyfrannu hefyd. Yr hyn sydd gennym yno yw Bwrdd Gwarchodwyr sy'n cynnal yr adnodd naturiol 2400 acer hwn ar y nesaf peth i ddim o arian ac ar adeg pan mae'r awdurdod hwn yn gwbl briodol, yn hyrwyddo'r agenda werdd. Mae gennym ein dyheadau o Sero Net erbyn 2030 ac rydym yn cyfrannu £35,000 i Kier i redeg eu fflyd ar fiodiesel ac rydym yn neilltuo amser swyddogion i dorri Jac y Neidiwr a phlannu coed ac yn y blaen. Mae'n ymddangos ein bod yn colli cyfle i gefnogi'r adnodd naturiol hwn a all wneud cymaint fel sinc carbon a gwella ein hamgylchedd yn fwy lleol. Yr hyn y byddwn yn gofyn i’r Arweinydd efallai yw peidio â dyblu’r cyfraniad y mae’r Cyngor hwn yn ei wneud ac efallai beidio â gwneud mwy o gyfraniad uniongyrchol o gwbl, ond gweithio’n agosach ac efallai neilltuo rhywfaint o amser swyddogion i weithio’n agosach gyda Bwrdd y Gwarchodwyr i weithio efallai mewn ffordd fwy cydweithredol fyddai’n fuddiol i bawb ac a fyddai’n cyd-fynd â’n hamcanion Sero Net, ond hefyd i weithio gyda Bwrdd y Gwarchodwyr i’w helpu i ennill grantiau a chyllid allanol, y gwyddom sydd ar gael ar gyfer y math hwn o fenter, fel ein bod ni i gyd yn cael budd o hynny. Hoffwn ofyn am y sicrwydd hwnnw os gwelwch yn dda.

**Ymateb**

Diolch am y cwestiwn atodol. A gaf i ddiolch i Langrallo Uchaf, Cyngor Cymuned Sain Ffraid, Cyngor Cymuned Coety Uchaf a Chyngor Tref Pencoed am eu cyfraniadau. Rydym, wrth gwrs, yn fwy na pharod i weithio a rhoi amser swyddogion a chefnogaeth i unrhyw sefydliad sydd eisiau cadw ac yn wir wella nodweddion bioamrywiaeth y Fwrdeistref Sirol. Byddem hefyd yn galw ar y tirfeddiannwr i weithio gyda Bwrdd y Gwarchodwyr oherwydd bod cyfrifoldeb, wrth gwrs, ar dirfeddianwyr ac rydym yn hapus i geisio eich cynorthwyo i roi'r sicrwydd hwnnw. Ni allwn roi unrhyw sicrwydd, serch hynny, y gall yr help hwnnw sicrhau cyllid, ond rydym wedi bod yn llwyddiannus iawn yn y gorffennol lle buom yn gweithio gyda sefydliadau. Roeddwn yn falch iawn pan sicrhaodd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen werth dros £130,000 o gyllid drwy grant Buddsoddi mewn Coetir Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol fel enghraifft o grant a chyllid a chymorth sydd ar gael i sefydliadau yn y Fwrdeistref Sirol ac yn wir gwn fod hyn sawl blwyddyn yn ôl bellach, ond yn sicr yn fy nghyfnod i fel Aelod, llwyddodd y Bwrdd i sicrhau grant gan Biffa ac roedd hwnnw ar gyfer gwaith gwella bioamrywiaeth ar Gomin Walia Coety. Rwyf yn siŵr bod posibilrwydd o lwyddiant yn y dyfodol os gwneir cais i gronfeydd eraill o arian ac, wrth gwrs, byddwn yn ceisio gweithio gydag unrhyw sefydliad yn y Fwrdeistref Sirol i wneud hynny. Mae gennym hanes cryf iawn lle 'rydym wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru a gyda'n buddugoliaeth ar y buddsoddiad ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd, sydd wedi rhoi hwb i fioamrywiaeth yn y Fwrdeistref Sirol.

**Cwestiwn atodol gan Tim Thomas**

Mae'n gwbl amlwg bod gan Gymdeithas Tir Comin rôl hollbwysig. Gyda'r gostyngiad yn y cyllid, rwyf yn ceisio sicrwydd y bydd y tir comin yn y Fwrdeistref Sirol yn parhau i gael ei ddiogelu rhag unrhyw ddatblygiad.

**Ymateb**

Diolch ichi am y cwestiwn atodol yna. Wrth gwrs, mae tir comin yn cael ei warchod gan ddeddfwriaeth a rheoliadau. Dydw i ddim yn siŵr beth yw'r rheoliad penodol sydd yn ei le ar gyfer y comin yna oherwydd bod gwahanol ddeddfau Seneddol a gwahanol fathau o reoleiddio ar gyfer gwahanol diroedd comin ar draws y Fwrdeistref Sirol ledled Cymru a thrwy'r DU. Gallwn, wrth gwrs, ddod o hyd i'r union reoliad sy'n berthnasol i Walia Coety ac wedyn yn ogystal â'r amddiffyniad pwysicaf, sef y rheoliad a'r gyfraith, wrth gwrs, mae'r amddiffyniad o fewn y broses gynllunio ac yn wir mae'r tir comin yn cael ei gydnabod am ei bwysigrwydd o fewn y cynllun datblygu lleol newydd, yn union fel y mae yn y Cynllun Datblygu Lleol.

**Y Cynghorydd Tim Thomas i Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd**

A wnaiff Aelod y Cabinet ddatganiad am ansawdd y dŵr o'n hafonydd a'n moroedd yn y Fwrdeistref Sirol?

**Ymateb**

Er i ni gytuno bod hwn yn fater o bryder, cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw rheoli ansawdd y dŵr yn ein hafonydd a'r môr. Wrth gwrs, rydym yn gwerthfawrogi ein hafonydd a'n dyfrffyrdd a lle bynnag y bo modd byddwn yn gweithio gyda sefydliadau ac asiantaethau partner i ddangos hyn. Un enghraifft yw'r gwaith o lanhau Afon Ogwr sy'n cael ei gynnal ym mis Awst eleni, gyda swyddogion o CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bro Morgannwg, CNC, yr

Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub a nifer o wirfoddolwyr. Caiff llawer o ddarnau o sbwriel, gan gynnwys cannoedd o deiars ceir eu tynnu allan, a fyddai fel arall wedi cael eu hunain yn llifo allan i'r môr o geg Afon Ogwr.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Tim Thomas**

Yn gyntaf, rwyf yn sylweddoli mai sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru ac un neu ddau o randdeiliaid eraill sy'n bennaf gyfrifol am lanweithdra afonydd, ond er hynny, rwyf yn credu bod gennym ni rôl o hyd yn y Cyngor hwn fel Arweinydd Cymunedol i sicrhau bod ein hafonydd o ansawdd penodol. Y perygl fel arall yw y gallai meysydd cyfrifoldeb eraill sydd gan y Cyngor, megis bioamrywiaeth, gael eu peryglu'n ddifrifol. Gyda hynny mewn golwg, rwyf yn bryderus am fod y BBC wedi adrodd, yn ôl yn 2018, am lefelau llygredd uchel yn Afon Ogwr. Efallai'n fwy diweddar, adroddwyd bod gan Afon Garw, sy'n llifo i mewn i'r Ogwr, rai o'r lefelau uchaf o ddyddodion carthffosiaeth heb eu trin yng Nghymru a Lloegr. Mae fy nghwestiwn naill ai i'r Arweinydd neu i'r Aelod perthnasol o'r Cabinet, a yw wedi gwneud unrhyw sylwadau i Dŵr Cymru neu unrhyw sefydliadau perthnasol ynglŷn â gwella'r sefyllfa? Os na, a fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol agos?

**Ymateb**

Dydw i ddim wedi anfon unrhyw beth yn ddiweddar at Ddŵr Cymru ond fis Awst diwethaf anfonodd yr Arweinydd lythyrau yn codi pryderon ond roedd hynny bron i flwyddyn yn ôl ac efallai ei bod yn bryd i ni yn awr ailgysylltu â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae wedi sôn am afon Ogwr ac mae llawer o rannau o ansawdd da ond roedd yn amlwg bod angen mwy o waith ar y Garw. Nid ein cyfrifoldeb ni ydyw, ond o ran bioamrywiaeth ehangach, yr agenda werdd a glas, mae'n gyfrifoldeb arnom ni. Ynghyd â'r Arweinydd, byddaf yn mynd â hyn yn ôl i Gyfoeth Naturiol Cymru ac yn pwyso am gamau pellach ar Afon Garw.

Yn ddiweddar cefais gyfres o sgyrsiau gyda chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru yng Nghaerdydd, gydag uwch reolwyr a'r Prif Weithredwr, oherwydd Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff rheoleiddio yng Nghymru o ran ansawdd y dŵr yn ein hafonydd ac yn y môr ac ar hyd yr arfordir. Codais y mater yna ac rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Ddŵr Cymru a byddaf yn parhau i wneud sylwadau oherwydd bod arnom eisiau i'n hafonydd a'r môr fod yn lanach.

**Cwestiwn Atodol**

Hoffwn ofyn am i ni fel Cyngor gydnabod y gwaith aruthrol sy'n mynd ymlaen yn glanhau ein hafonydd ledled y sir a gwaith Grŵp Afonydd Cwm Llynfi yn arbennig, grŵp o wirfoddolwyr sy'n rhoi i fyny eu boreau Sadwrn unwaith bob pythefnos, boed law neu hindda, ac maen nhw'n gwneud gwaith aruthrol i gael gwared ar gymaint o wastraff o'r afon, mae'n anhygoel beth sy'n dod allan. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r sefydliadau gwirfoddol eraill ac felly rwyf yn meddwl tybed a allem gydnabod y gwaith aruthrol sy'n cael ei wneud gan sefydliadau fel yna. Yr hyn yr hoffwn hefyd ei bwysleisio ydy'r gwaith y mae Huw Iranca-Davies a Chris Elmore, AS ac MS yn ei wneud wrth weithio gyda Dŵr Cymru i geisio gwneud rhywbeth ynghylch yr ystadegyn brawychus hwn am Afon Garw. Edrychaf ymlaen yn fawr at ymdrech gyfunol gan bob awdurdod i geisio dod â'r mater hwn o dan rywfaint o reolaeth cyn bo hir.

**Ymateb**

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Grŵp Afonydd Cwm Llynfi, Grŵp Pride Cwm Ogwr a Chadw Nant-y-moel yn Daclus. Hoffwn weiddi eto am yr Ymdrech fawr i Lanhau Afon Ogwr lle mae Afon Ogwr yn nesáu at y môr. Mae'r prosiect enfawr hwn yn mynd

rhagddo ddiwedd mis Awst ac yn y bôn Cyn-filwr o'r Fyddin gyda phryderon amgylcheddol sydd wedi trefnu mwy na 30 o grwpiau, rhai grwpiau gwirfoddol, ni ein hunain a Bro Morgannwg yn cydweithio. Rydw i wedi gweld ffilm drôn o ba mor ddrwg ydy'r afon yna ac mae llawer wedi deillio o Afon Garw. Dylid clirio'r miloedd o deiars a throlïau siopa sy'n gorwedd yn y mwd yn yr afon honno wrth iddi lifo i'r môr erbyn diwedd mis Awst.

162. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 18:45.